**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

22 Mai 2019

Annwyl Weinidog,

**Cynigion cyllideb blynyddol cyrff a ariennir yn uniongyrchol**

Diolch i chi am eich ymateb ar 2 Mai 2019, yn cynnig sylwadau ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft arfaethedig rhwng y Pwyllgor Cyllid a Chyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ar gyfer paratoi cynigion cyllideb blynyddol.

Trafododd y Pwyllgor Cyllid eich ymateb, ynghyd ag ymatebion gan y cyrff dan sylw yn ein cyfarfod ar 15 Mai 2019.

Ystyriodd y Pwyllgor Cyllid sylwadau'r cyrff yn ofalus ac maent wedi cytuno i gyhoeddi 'Datganiad o Egwyddorion' fel canllaw iddynt ei ystyried wrth baratoi eu cynigion cyllideb blynyddol yn hytrach na Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd â'ch awgrym i gyfeirio ym mharagraff 8 at y ffaith y bydd y wybodaeth rydych wedi cytuno i'w darparu ar gael cyn toriad yr haf ac y bydd y Pwyllgor Cyllid yn ei hanfon at y cyrff a ariennir yn uniongyrchol.

Mae'r Datganiad o Egwyddorion ar gael ar wefan y Pwyllgor Cyllid yn:

http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s88393/Datganiad%20o%20Egwyddorion%20-%20Mai%202019.pdf

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English*